# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 4 Mawrth 2025

Amser: 09.00 - 09.50

# Remote / Private

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Matthew Richards, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Julie James AS, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Charlie Thomas, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Dirprwy Lywydd yr Aelodau i'r cyfarfod a chadeirio eitemau 1-5.1. Cadeiriodd y Llywydd eitemau 5.2 a 5.3. Ni chafwyd dim ymddiheuriadau.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.45pm.

Dywedodd y Dirprwy Lywydd wrth y Rheolwyr Busnes fod y Llywydd yn bwriadu talu teyrnged i'r cyn-Aelod Alison Halford a chynnig cydymdeimlad ar ran y Senedd ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn heddiw.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

Dywedodd y Dirprwy Lywydd wrth y Rheolwyr Busnes fod dehongliad byw o Iaith Arwyddion Prydain (BSL) wedi'i drefnu ar gyfer Dadl yr Aelodau Mark Isherwood ddydd Mercher.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 11 Mawrth 2025**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Trefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru (45 munud)
- ~~Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (45 munud)~~
- Dadl: Diwrnod Rhyngwladol y Menywod – cyflymu gweithredu (60 munud)

**Dydd Mawrth 18 Mawrth 2025**

- ~~Datganiad gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol: Rhaglenni cymorth cyflogadwyedd yng Nghymru (45 munud)~~ g*ohiriwyd*

Gofynnodd Heledd Fychan pryd y byddai dadleuon ar Ystâd y Goron a'r Mesur Teithio i Ddysgwyr yn digwydd, yn dilyn ymrwymiadau blaenorol a wnaed gan y Llywodraeth. Cadarnhaodd y Trefnydd y bydd y ddwy ddadl yn cael eu trefnu ar gyfer dydd Mawrth 1 Ebrill.

## 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd i ychwanegu'r eitemau a ganlyn i Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 26 Mawrth 2025 –**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud) *Aildrefnwyd o 12 Mawrth*

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Heledd Fychan AS (Canol De Cymru) (30 munud)

Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i Reolwyr Busnes atgoffa Aelodau eu grwpiau mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r cynigion cyntaf ar gyfer pynciau Dadl Agored yw dydd Iau 6 Mawrth.

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch argymhellion yn ei adroddiad ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddau argymhelliad iddo ystyried cynnal adolygiadau gweithdrefnol a wnaed gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei adroddiad ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymu) (Cymru).

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymateb i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i nodi y bydd yn rhoi ystyriaeth bellach i'r cynigion wrth ystyried blaenoriaethau ei raglen waith weithdrefnol ar gyfer gweddill y Chweched Senedd yn gynnar yn nhymor yr Haf.

# 5 Deddfwriaeth

## 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ynghylch cydgrynhoi cyfraith gynllunio

Nododd y Pwyllgor Busnes ohebiaeth bellach gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ynghylch yr amserlenni ar gyfer Biliau arfaethedig i gydgrynhoi cyfraith gynllunio, cyn ei drafodaeth ei hun â'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni a gynhelir yn ddiweddarach yn yr un cyfarfod.

## 5.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a:

- nodi'r diweddariad mewn perthynas â'r Bil Great British Energy a'i fod eisoes wedi penderfynu peidio â gosod dyddiad i bwyllgorau gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3), ond bod pwyllgorau'n parhau i allu adrodd i'r Senedd os ydynt yn dymuno gwneud hynny;
- nodi'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) ac y byddai pwyllgorau'n gallu adrodd i'r Senedd ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 7) pe baent yn dewis gwneud hynny, ond cytunodd i beidio â gosod dyddiad ar gyfer cyflwyno adroddiad yng ngoleuni'r ffaith bod y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol;
- nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod cyflwyno cynnig ar gyfer dadl bellach ar gydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) cyn y toriad hanner tymor. Nododd y Trefnydd fod yr amserlen ar gyfer y Bil yn San Steffan wedi golygu nad oedd yn bosibl i'r Senedd roi barn bellach ar gydsyniad ar yr adeg honno.

Cydnabu'r Trefnydd eto y sefyllfa annerbyniol y mae hyn yn rhoi’r Senedd ynddi ac y bydd y Llywodraeth yn parhau i gyfeirio at bwysigrwydd y broses gydsynio deddfwriaethol fel ffactor i Lywodraeth y DU fod yn ymwybodol ohono wrth amserlennu ei deddfwriaeth.

### 5.3 Sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ynghylch rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru

Cafodd y Pwyllgor Busnes friff gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ar gynnig gan y Llywodraeth i addasu'r broses cyn cyflwyno ar gyfer Biliau. Amlinellodd y Cwnsler Cyffredinol mai nod y newid fyddai cynorthwyo pwyllgorau'r Senedd yn eu hystyriaethau a helpu'r Pwyllgor Busnes i benderfynu ar amserlenni ar gyfer Biliau’r Llywodraeth a gyflwynir ym mlwyddyn olaf y rhaglen ddeddfwriaethol.

Holodd y Rheolwyr Busnes y Cwnsler Cyffredinol am y dull arfaethedig a nododd y byddai briff pellach ar oblygiadau posibl yn cael ei ddarparu mewn cyfarfod yn y dyfodol.